YR ATODLEN

Arbedion a darpariaethau trosiannol

**Cofrestriad sy'n ddarostyngedig i gerydd**

**5.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys—

(a) os, yn union cyn 3 Ebrill 2017, oedd cofnod o gerydd(**1**) ar gofnod person a drosglwyddir yng nghofrestr CGC, a

(b) pe bai'r cofnod o'r cerydd wedi parhau ar 3 Ebrill 2017.

(2) Ar neu ar ôl 3 Ebrill 2017, mae cofrestriad y person hwnnw yng nghofrestr GCC i gael ei drin fel pe bai'n ddarostyngedig i rybudd o ran ymddygiad neu berfformiad yn y dyfodol, yn unol â'r un telerau ac ar gyfer yr un hyd â'r cerydd, a ddyroddir gan GCC neu banel addasrwydd i ymarfer(**2**) (sydd i gael ei ystyried a chanddo'r pŵer i ddyroddi'r rhybudd hwnnw).

(**1**) *Gweler* Rheolau Cyngor Gofal Cymru (Addasrwydd i Ymarfer) 2014.

(**2**) Caniateir i rybuddion gael eu dyroddi gan GCC o dan adran 126(3)(c) o'r Ddeddf, a chan banel addasrwydd i ymarfer o dan adrannau 137(5), 138(6), 152(3)(b)(ii) ac (8)(b), 153(3)(b)(ii) a (9)(b), 154(3)(b)(ii) ac (8)(b) a 155(6)(b)(ii).